Y Lab

Arloesi er mwyn Arbed

Cyfarwyddyd Gwneud Cais – Y Cyfnod Ymchwil & Datblygu

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

nesta

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Bydd Arloesi er mwyn Arbed yn dod o hyd i ac yn ariannu mentrau arloesol all gynhyrchu arbedion y gellir eu cyfnewid am arian parod ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a gwella ansawdd darpariaeth y gwasanaeth. Drwy gynnig arian grant, cymorth heb fod yn ariannol a benthyciadau ad-daladwy, mae Arloesi er mwyn Arbed yn cefnogi sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector i greu cynddelw, treialu, graddio a gwerthuso projectau arloesol. Mae'n agored i holl sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector Cymru o Chwefror 20, 2018.

Ceir tri chyfnod i'r rhaglen Arloesi er mwyn Arbed.

1. **Cymorth cyn cyflwyno cais,** lle y gallwn gefnogi datblygiad syniadau newydd mewn i brojectau ymchwil a datblygu (R&D);
2. **Ymchwil a Datblygu** (R&D), lle gall syniadau newydd gael eu cynddelwi a'u profi, a;
3. **Gweithredu,** lle gall syniadau ddangos y gallu i wella gwasanaethau a chynhyrchu arbedion eu rhoi ar waith.

Caiff y cyfarwyddyd canlynol ei gynnig i sefydliadau sydd yn bwriadu gwneud cais ar gyfer y cyfnod Ymchwil a Datblygu. Caiff cyfarwyddyd ar wahân ei roi i'r sawl sydd yn gymwys wneud cais i'r Cyfnod gweithredu.

Ynglyn â'r cyfnod Ymchwil a Datblygu

Rhan allweddol o Arloesi er mwyn Arbed yw'r cyfnod Ymchwil a Datblygu ac mae'n ein caniatáu i gefnogi mudiadau i gynddelwi, profi ac ail-wneud syniad newydd, mentrus ac uchelgeisiol, cyn meddwl am geisio am arian o fenthyciad i'w weithredu.



Gall projectau ddechrau ar gyfnodau gwahanol yn y cylcha welir uchod ac fe allant gymryd eu syniad drwy'r cylch yma sawl gwaith neu drwy un rhan ohono yn unig, yn ddibynnol ar eu hanghenion.

- **Ei ddatblygu** - gall projectau ddefnyddio'r amser yma i gymryd eu cynlluniau o'r syniad i'r cynddelw a rhoi model rhesymeg ynghyd er mwyn dangos sut maen nhw'n meddwl bydd eu project yn gweithio. Bydd gan nifer o brojectau wybodaeth berthnasol i'r syniad eisoes, fel adborth, ystadegau ac enghreifftiau o'r byd real, y gellir eu coladu a'u dadansoddi. Mae hyn yn debygol o gael ei atodi gan ymchwil o ddesg er mwyn deall sut fyddai'r syniad yn ffitio mewn i gyd-destun ehangach y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu. Bydd projectau yn dylunio arbrofion, datblygu cynllun ymchwil a datblygu model busnes cychwynnol ar gyfer y syniad newydd er mwyn adnabod gwelliannau ac arbedion mewn arian parod. Yn ddibynnol ar y math o syniad, gall projectau ddefnyddio rhyw fath o ddulliau ymchwil o dan arweiniad y defnyddiwr er mwyn datblygu ac ailadrodd cynddelw hyd at y pwynt lle bod gan ddyn nhw fersiwn sydd yn gweithio y gellir ei dreialu ar raddfa fach.

- **Ei brofi** - Bydd syniadau'r projectau yn cael eu dangos ar raddfa fach, gan ganiatáu i bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth i'w brofi'n uniongyrchol. Bydd projectau yn casglu'r data o'r byd real sydd yn dangos p'un a yw gwelliannau'n cael eu gwneud ac os yw'r project yn debygol o wneud unrhyw arbedion arian parod.

- **Ei fireinio** – bydd projectau'n adolygu'r wybodaeth a'r data o'r cyfnod profi, mireinio'r syniad a'r model rhesymeg a phenderfynu p'un a oes angen gwneud datblygiadau pellach.

Drwy gydol y broses, bydd projectau hefyd yn sicrhau eu bod wedi deall pwy yw'r budd-ddeiliaid yn y project, bod y budd-ddeiliaid hynny'n cefnogi'r project a bod unrhyw ganiatâd neu oddefiadau angenrheidiol mewn lle cyn y cyfnod Gweithredu. Bydd projectau hefyd yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth sydd yn bodoli eisoes - sut mae'n gweithio a fain mae'n ei gostio.

Tuag at ddiwedd y cyfnod Ymchwil a Datblygu, bydd projectau'n adolygu eu data treialu a'r gwersi a ddysgwyd, yn ysgrifennu a chofnodi eu canfyddiadau ac yn asesu p'un a ydyn nhw'n barod neu beidio i symud i'r cam nesaf. Os ydyn nhw'n barod, yna byddant yn datblygu achos busnes ar gyfer cymryd benthyciad ariannol o Arloesi er mwyn Arbed.

Drwy gydol y cyfnod Ymchwil a Datblygu, caiff projectau eu cefnogi gan dîm Y Lab er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw'r medrau, arbenigedd ac adnoddau angenrheidiol i gyflenwi'r project .

ARLOESI ER MWYN ARBED
INNOVATE TO SAVE

Y Gefnogaeth sydd ar gael

Rydym yn cynnig y gefnogaeth ganlynol i brojectau yn ystod y cyfnod Ymchwil a Datblygu:

- **Rhwng £5,000 a £30,000 mewn arian grant** er mwyn cefnogi amser staff, treuliau, cynddelwi, costau adeiladu a gweithgarwch Ymchwil a datblygu arall.

- **Mynediad at arbenigedd ymchwil ac ymchwil a datblygu a chefnogaeth gan dîm Y Lab.** Fe allai hyn gynnwys: cyngor ar fireinio'r modelau rhesymeg; casglu a dadansoddi data; dulliau cynllunio wedi'u canolbwyntio ar y defnyddiwr; hyfforddiant a chyngor ar fodeli economaidd er mwyn dangos arbedion arian parod.

- **Tri digwyddiad Gwersyll Hyfforddiant.** Rydym yn rhedeg tri digwyddiad yn ystod y cyfnod yma i'ch cefnogi wrth i chi fireinio'ch syniadau, rheoli proses Ymchwil a Datblygu ailadroddus, modeli arbedion a deal dulliau ymchwil. Bydd y digwyddiadau hyn yn rhoi'r cyfle i chi rwydweithio gyda phrojectau eraill a rhoi a derbyn adborth adeiladol a chefnogaeth gan eich cyfoedion;

- **Cymorth i rannu'ch project** a'r gwersi a ddaw ohono gyda budd-ddeiliaid sydd yn ymddiddori a'r cyhoedd ehangach a chymunedau trydydd sector.

- **Cymorth busnes ychwanegol** - canolbwyntio ar rai o'ch prif anghenion all gynnwys modelu arbedion, rheoli diwylliant a newid mewn sefydliadau, neu fedrau ymchwil penodol, hwyluso cysylltu projectau gydag ymchwilwyr eraill ym Mhrifysgol Caerdydd neu mewn mannau eraill,

Cynlluniwyd y pecyn yma o gymorth ariannol ac ymarferol i roi'r amser sydd ei angen arnoch i ymgymryd ag ymchwil a datblygu, adnoddau i ddatblygu, adeiladu a phrofi'ch syniadau er mwyn sicrhau eich bod yn gallu rhoi ar glawr, deall a rhannu sut eich bod yn gwella gwasanaethau ac yn creu arbedion.

Yr Amserlen Ymchwil a Datblygu

Lansio	Chwefror 20 2018
Ceisiadau'n Agor	Ebril 23 2018
Cyfnod Cymorth Cyn Cyflwyno Cais	Mai - Gorffennaf 2018
Llinell Derfyn Cyflwyno Cais	16 Gorffennaf 2018
Cyfnod Ymchwil a Datblygu	Medi 2018 - Gorffennaf 2019

Cynhelir y Gwersyll Hyfforddiant cyntaf yn gynnar ym mis Medi 2018. Mae hwn yn orfodol i bob project sydd wedi ei ariannu a dylai'r rheolwr project ac o leiaf un aelod arall o'r tîm project ei fynychu.

Caiff y Gwersylloedd Hyfforddiant erial eu trefnu'n hwyrach yn y flwyddyn.

Sut i wneud cais

Meini Prawf Cymhwyster

Cyn i chi gyflwyno'ch cais, byddwch cystal â sicrhau eich bod yn diwallu'r meini prawf cymhwyso canlynol:

- Bod y prif ymgeisydd yn fudiad sector gyhoeddus neu drydydd sector Cymreig;
- Nad yw'r prif ymgeisydd yn dod o Brifysgol Caerdydd na Nesta (er bod croeso iddyn nhw gefnogi ceisiadau gan rywun arall);
- Bod y gwaith rydych yn bwriadu ei wneud yn cael ei ddarparu yng Nghymru a/neu o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae gyda ni hefyd set o ddiffiniadau a chwestiynau a ofynnir yn aml a gellir dod o hyd iddyn nhw ar wefan y rhaglen y dylech ei ddarllen cyn parhau.

Ffurflen Gais

Y cam cyntaf yw cwblhau a chyflwyno ffurflen gais ar-lein. Gellir dod o hyd i'r ffurflen yma ac fe ellid ei gyflwyno yn y Gymraeg neu'r Saesneg:

Saesneg yma:
http://www.surveygizmo.com/s3/4197045/Innovate-to-Save-Research-and-Development-Application-Form-v2

Cymraeg yma:
http://www.surveygizmo.com/s3/4197371/Arloesi-er-mwyn-Arbed-Ymchwil-a-Datblygu-Ffurflen-Gais-v2

Llinell Derfyn cyflwyno ceisiadau yw 10am ar Ddydd Mawrth Gorffennaf 16, 2018.

Byddwn wedyn yn prosesu, sgorio a byr-restri'r holl geisiadau a dderbyniwyd cyn gwahodd detholiad o ymgeiswyr i gymryd rhan mewn cyfweliadau. Gallwch gymryd golwg ar y meini prawf byddwn yn eu defnyddio er mwyn sgorio ceisiadau yma.

Cyfweliadau

Credwn yn gryf yng ngwerth cyfweld rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer ein rhaglenni. Mae hyn ein cynorthwyo i ddeall pwy ydych chi a pham hoffech chi fod yn rhan o'r rhaglen. Mae'n ein caniatau i brofi pa mor dda wnaeth eich sefydliad gael ei drochi yn y rhaglen, yn ogystal â chryfder eich syniad a'r tîm fydd yn gweithio arno.

Amerslen Dethol

Llinell Derfyn Cyflwyno Cais	Gorffennaf 16th 2018 (10yb)
Cyfweliadau am brojectau ar y rhestr fer	Awst 2018
Hysbysu canlyniad y cyfweliad	w/d Awst 20 2018

Eich buddsoddiad ac ymrwymiad i'r rhaglen

Er ein bod yn gallu darparu pecyn eang o gymorth a chefnogaeth i'ch helpu i gymryd rhan yn rhaglen hon, bydd yn rhaid i chithau fuddsoddi peth o amser ac adnoddau'ch sefydliad er mwyn cael y gorau allan ohono. Wrth feddwl am gynllun a chyllideb eich project, dylech ystyried y canlynol:

Ymrwymiad â'r rhaglen a gyda thîm y rhaglen

Bydd angen i chi sicrhau bod digon o amser yn cael ei glustnodi ar gyfer gweithgareddau ymrwymo gyda'r rhaglen (fel gweithdai a chyfarfodydd gyda thîm y rhaglen), yn ogystal â'r amser fyddwch chi'n ei dreulio ar eich project - dylid clustnodi isafswm o 9 diwrnod i hwn rhwng Medi 2018 a diwedd Gorffennaf 2019 yn ddibynnol ar eich cynlluniau ymchwil a datblygu.

Gwerthuso'r rhaglen yn gyfochrog

Byddwn yn cynnal gwerthusiad o Arloesi er mwyn Arbed yn gyfochrog â'r rhaglen. Byddwn yn gofyn i'r holl brojectau gymryd rhan yn y gwerthusiad yma. Gall dulliau ymchwil gynnwys arolygon gwaelodlin a diweddlin, holiaduron mewn digwyddiadau, dyddiaduron ymchwil a chyfweliadau gyda staff project.

Rheoli Project

Bydd angen rheolwr project cryf, cymwys a phrofiadol, sydd wedi cael digon o amser i allu canolbwyntio ar y project er mwyn gwneud cyfiawnder iddo. Dylech fod yn ymwybodol bod rheoli project Datblygu ac Ymchwil yn broses dwys iawn. Gallwch ddefnyddio peth o'r arian grant i gefnogi'r swydd ym. Fodd bynnag mae'n annhebygol i allu talu am ei holl amser. Byddwn yn disgwyl hefyd bod swm sylweddol o'r gyllideb yn cael ei ddefnyddio i dalu am weithgarwch ymchwil a datblygu.

Cefnogaeth gan Uwch Staff

Dylai gweithio ar y project yma fod o gymorth i fusnes creiddiol a strategaeth eich mudiad, yn hytrach na bod yn ychwanegol iddo. I'r perwyl hyn, bydd angen cymorth uwch staff arnoch er mwyn: sicrhau bod unrhyw syniadau newydd yn unol â strategaeth y mudiad; bod gyda chi adnoddau digonol wrth eu datblygu; ac y gellir eu graddio a'u gweithredu felly.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Arian cyfatebol

Er nad yw arian cyfatebol yn angenrheidiol am y project, gallwch ddefnyddio ariannu ychwanegol fel atodiad i'ch project os oes angen. Byddwch cystal â nodi fod yn rhai i unrhyw arian cyfatebol fod wedi'i drefnu cyn dechrau gwneud cais i gymryd rhan yn y rhaglen.

Rhannu eich gwersi gydag eraill

Bydd angen i chi glustnodi amser ac adnoddau er mwyn rhannu yr hyn fyddwch chi'n ei wneud wrth iddo ddigwydd. Meddyliwch am y medrau cyfathrebu y bydd eu hangen arnoch a gwnewch yn sicr eich bod wedi neilltuo peth amser i greu postiadau blog, cymryd rhan mewn ffilmio neu weithgareddau cyfathrebu eraill.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â'r rhaglen, eich cymhwystra neu yr hoffech dderbyn yr wybodeth mew ffurf arall, byddwch cystal â dod i gyswllt gydag Angharad Dalton, Rheolwr y Rhaglen drwy e-hebu angharad.dalton@nesta.org.uk neu drwy ffôn ar 02922510320

Sgorio Ceisiadau

Dylid defnyddio'r meini prawf canlynol i sgorio ceisiadau i gam *Ymchwil a Datblygu'r* rhaglen Arloesi er mwyn Arbed. Rydym yn chwilio am brosiectau a sefydliadau sydd:

- Wedi **nodi her benodol mewn maes darparu gwasanaethau cyhoeddus** y gellir ei hegluro'n fanwl gyda rhywfaint o dystiolaeth, gan gynnwys ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth;
- Wedi **cyflwyno syniad neu ddatrysiad newydd** sy'n mynd i'r afael â her neu gyfle ac sydd angen cyfnod o ymchwil a datblygu cyn cael ei weithredu;
- Wedi gwneud ymrwymiad strategol i fynd i'r afael â'r her ac wedi **ffurfio tîm sydd** â'r dasg (yn amodol ar gyllid) o gynnal prosiect ymchwil a datblygu;
- Wedi **drafftio cynllun clir a rhesymegol ar gyfer ymchwilio a datblygu'r syniad,** gyda chyllideb ymchwil a datblygu gysylltiedig.

Mae'r cais wedi cael ei rhannu'n bedair adran, gyda phob un ohonynt yn cynnal sgôr uchaf o 4 marc, sy'n rhoi cyfanswm sgôr uchaf o 16. Gofynnir i sgorwyr roi sgôr gyffredinol ar gyfer yr adran gyfan a rhoi esboniad byr ar gyfer pob sgôr. Yn ogystal â'n galluogi i ddewis y prosiectau mwyaf priodol, mae'r cymysgedd hwn o ddata meintiol ac ansoddol yn cynnig set ddata defnyddiol ar gyfer ein gwerthusiad o gam *Codi Ymwybyddiaeth* ac *Ymgysylltu'r rhaglen* ac am gynnig adborth cyffredinol i ymgeiswyr.

Defnyddir y sgoriau i lywio'r sgwrs yn y cyfarfod dethol - *nid ydynt yn rhwymedig yn awtomatig* ac fe fyddant yn rhan o'r broses a ddefnyddir i benderfynu pa brosiectau i'w gwahodd ar gyfer cyfweliad. Bydd sgoriau ceisiadau hefyd yn cael eu cyfuno gyda sgoriau ac adborth cyfweliadau i'n helpu i benderfynu pa brosiectau i'w cymryd i'r cam ymchwil a datblygu.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Yr Her

Yn yr adran hon, dylai'r sefydliad ddiffinio'r her y mae'n ceisio'i oresgyn. Yn benodol, rydym yn chwilio am:

- Her gwasanaeth cyhoeddus penodol, wedi'i diffinio'n dda, gyda thystiolaeth glir
- Darlun da o bwy yw'r defnyddiwr gwasanaeth ac i ba raddau y maent yn ymgysylltu eisoes yn y prosiect (naill ai drwy ymchwil defnyddwyr, profiad staff neu ddulliau cyd-gynhyrchu);
- Esboniad clir o'r maes gwasanaeth y mae'r her yn berthnasol iddo ac esboniad byr o gyfrifoldebau strategol presennol y sefydliad.

Y Syniad

Yn yr adran hon dylai'r sefydliad ddisgrifio sut mae'n bwriadu mynd ati i fynd i'r afael â'r her. Yn benodol, rydym yn chwilio am:

- Disgrifiad clir o'r syniad y byddant yn ei ymchwilio a'i ddatblygu;
- Esboniad rhesymegol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o sut y bydd y syniad yn creu gwelliannau mewn cyflenwi gwasanaethau ac arbedion posibl (arian parod neu eraill) i'r sefydliad y gellir eu profi a'u dilysu drwy broses ymchwil a datblygu;
- Dealltwriaeth o sut mae'r syniad newydd yn ymateb i newidiadau cymdeithasol mawr, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddefnyddio technoleg newydd;
- Disgrifiad clir o sut y lluniwyd y syniad a'r graddau y gellid ei ystyried yn newydd (yn eu maes gwasanaeth, yng Nghymru neu yn gyffredinol)
- Esboniad o sut y gallai deddfwriaeth a chanllawiau ddylanwadu ar gyfeiriad y prosiect.

Y Tîm

Yn yr adran hon dylai'r sefydliad ddisgrifio'r tîm fydd yn ymgymryd â'r prosiect ymchwil a datblygu. Yn benodol, rydym yn chwilio am:

- Dîm ag arweinyddiaeth a strwythur adrodd clir gyda'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad iawn i gyflenwi'r prosiect;
- Noddwr gweithredol diffiniedig sydd wedi neilltuo rhywfaint o amser ac adnoddau i'r prosiect;
- Disgrifiad o unrhyw sefydliadau partner, eu rôl a rhesymau strategol clir a rhesymegol pam y maent wedi'u cynnwys yn y prosiect;

Y Cynllun Ymchwil a Datblygu

Yn yr adran hon, dylai'r sefydliad nodi sut mae'n bwriadu mynd ati i ddatblygu a phrofi'r syniad. Yn benodol, rydym yn chwilio am:

- Cwestiwn neu gwestiynau ymchwil clir;
- syniad o feincnodau y gellid mesur perfformiad (gwasanaeth gwella/ arbedion) yn eu herbyn, atebion i gwestiynau ymchwil a strategaeth ar gyfer casglu data i gael ei ddrafftio;
- cynllun prosiect clir ac amserlen sy'n caniatáu datblygu prototeip, profi, myfyrio ac iteriad;
- cyllideb sy'n cynnwys digon o adnoddau i gyflawni'r prosiect ymchwil a datblygu ac sy'n sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i ymgysylltu â gweithgareddau'r rhaglen.
- Disgrifiad o sut y maent yn bwriadu rhannu unrhyw wersi, profiadau, arferion da neu ddulliau a ddatblygwyd o ganlyniad i'r cyfnod ymchwil a datblygu.

Sut i Sgorio

4 - Mae'r her yn glir, yn rhesymegol ac yn dystiolaeth dda, gyda dealltwriaeth dda o bwy yw'r defnyddiwr.
Mae syniadau yn wirioneddol newydd ac yn debygol o gael rhywfaint o effaith ar yr her a chreu arbedion. Mae gan y timau'r cydbwysedd cywir o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i gyflawni'r prosiect yn effeithiol. Mae cyllidebau a chynlluniau'n glir ac yn caniatáu digon o amser ac adnoddau i'w cynnal yn effeithiol. **Ychydig iawn o waith ychwanegol fyddai angen i wella'r atebion;**

3 - Mae'r her yn glir, yn rhesymegol ac yn rhannol seiliedig ar dystiolaeth, gyda dealltwriaeth dda o bwy yw'r defnyddiwr.
Mae'r syniadau yn wirioneddol newydd ac yn debygol o gael rhywfaint o effaith ar yr her a chreu arbedion. Mae gan y timau'r rhan fwyaf o'r sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect yn effeithiol. Mae cyllidebau a chynlluniau'n glir ac yn caniatáu digon o amser ac adnoddau ar gyfer gweithgarwch effeithiol gyda rhai mân ddiwygiadau. **Mae angen rhywfaint o waith ychwanegol i wella'r atebion ond mae modd sicrhau hynny yn y tymor byr (ar ddechrau'r broses ymchwil a datblygu);**

2 - Mae'r her yn gyffredinol a/neu efallai nad oes cysylltiadau rhesymegol i strategaeth y sefydliad. Dim ond hyn a hyn o dystiolaeth a roddir ac mae'r ddealltwriaeth o'r defnyddiwr yn gyffredinol. Mae'r syniadau yn newydd neu'n wahanol yn y maes gwasanaeth, ond nid o reidrwydd i Gymru. Mae'r syniadau'n debygol o gael effaith, ond mae'r llwybr at arbedion yn llai clir. Mae gan y timau'r rhan fwyaf o'r sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i gyflawni'r prosiect yn effeithiol, ond mae bylchau sylweddol. Mae cyllidebau a chynlluniau'n caniatáu amser ac adnoddau ar gyfer gweithgarwch ond efallai y bydd angen rhai newidiadau sylweddol er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd. **Mae angen rhywfaint o waith ychwanegol i wella'r atebion a all gael eu cyflawni yn y tymor byr (ar ddechrau'r broses ymchwil a datblygu);**

1 - Mae'r her yn rhy gyffredinol a/neu efallai bod diffyg cysylltiadau rhesymegol i strategaeth y sefydliad. Ceir rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd a syniad cyfyngedig iawn o bwy yw'r defnyddiwr. Nid yw'r syniadau'n newydd mewn cyd-destun gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ond efallai'n dangos rhywfaint o effaith a llwybr at arbedion. Nid oes gan y timau'r rhan fwyaf o'r sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect yn effeithiol. Mae diffyg eglurder i'r cyllidebau a chynlluniau ac nid ydynt yn caniatáu digon o amser ac adnoddau ar gyfer gweithgarwch effeithiol. **Mae angen rhywfaint o waith ychwanegol i wella'r atebion a fydd yn annhebygol o gael eu cyflawni yn y tymor byr (ar ddechrau'r broses ymchwil a datblygu);**

0 - Mae'r her yn brin o fanylion sylweddol neu gysylltiadau rhesymegol â strategaeth y sefydliad. Mae ychydig iawn neu ddim tystiolaeth ac mae'u dealltwriaeth o'r defnyddiwr yn llwyr ragdybiaeth. Nid yw'r syniadau'n newydd - parhad neu welliant sylfaenol ar weithgareddau sydd eisoes yn bodoli. Prin yw'r dystiolaeth y bydd y syniad yn cael unrhyw effaith neu greu arbedion. Nid oes gan y timau'r rhan fwyaf o'r sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect yn effeithiol. Mae cyllidebau a chynlluniau'n aneglur ac yn caniatáu dim digon o amser nac adnoddau ar gyfer gweithgarwch effeithiol. **Mae angen cryn dipyn o waith ychwanegol i wella'r atebion a fydd yn annhebygol o gael eu cyflawni yn y tymor byr (ar ddechrau'r broses ymchwil a datblygu).**